NPIA
National Policing Improvement Agency
Asiantaeth Genedlaethol Gwella Plismona

Gwirfoddolwch fel heddwas gwirfoddol

Creu newid er gwell

Cefnogwch waith eich heddlu lleol yn y gymdogaeth sydd bwysicaf i chi… eich cymdogaeth chi

Beth yw'r Heddlu Gwirfoddol?

Llu o wirfoddolwyr hyfforddedig sy'n gweithio ochr yn ochr â'u heddlu lleol, a'i gefnogi, yw'r Heddlu Gwirfoddol. Dysgwch fwy am y bobl dan sylw, beth maen nhw'n ei chael o gymryd rhan a sut mae heddweision gwirfoddol yn ffitio i mewn i wasanaeth yr heddlu.

Mae pob heddwas gwirfoddol yn derbyn hyfforddiant a gwybodaeth lawn cyn pob dyletswydd

Beth sydd tu mewn

02 Beth yw'r Heddlu Gwirfoddol?

04 Beth maen nhw'n ei wneud?

05 Pam dod yn heddwas gwirfoddol?

06 Beth yw plismona cymdogaeth?

07 Pa sgiliau sydd eu hangen arnaf?

08 Sut fydd yn newid fy mywyd?

10 Beth yw'r rhaglen Plismona a Gefnogir gan Gyflogwyr?

12 Gaf i ymuno â'r heddlu gwirfoddol?

13 Beth nesaf?

Mae heddweision gwirfoddol yn chwarae rhan hanfodol mewn trechu trosedd a gwneud ein strydoedd yn fwy diogel. Maen nhw'n dod o lawer o gefndiroedd gwahanol ac yn bob lliw a llun. Maent yn gwirfoddoli isafswm o bedair awr yr wythnos ac yn creu cyswllt holl-bwysig rhwng eu cymuned a heddweision rheolaidd.

Mae'n rhaid i heddweision gwirfoddol gwblhau rhaglen hyfforddiant, ac wedi hynny mae ganddynt yr un pwerau â heddweision rheolaidd ac yn gwisgo lifrai tebyg.

Mae mwy na 14,000 o'r bobl eithriadol hyn yn y wlad, ac rydym ni'n chwilio am ragor.

Os hoffech chi helpu i wneud eich cymdogaeth yn lle gwell ac yn barod am her gyffrous, darllenwch ymlaen i ddysgu sut mae dod yn heddwas gwirfoddol.

Beth yw heddwas gwirfoddol?

- Mae gan heddweision gwirfoddol yr un pwerau â heddweision rheolaidd.
- Mae heddweision gwirfoddol yn treulio isafswm o bedair awr yr wythnos, neu fwy, yn cefnogi'r heddlu i ymdrin â throsedd yn eu cymunedau nhw.
- Mae heddweision gwirfoddol yn cael eu recriwtio'n lleol gan bob un o'r 43 heddlu yng Nghymru a Lloegr.

Gallwch chi wneud gwahaniaeth yn y gymuned leol

- Mae heddweision gwirfoddol yn gweithio mewn partneriaeth â heddweision rheolaidd a'r teulu plismona ehangach.

Pwy all ddod yn heddwas gwirfoddol?

- Mae'r Heddlu Gwirfoddol yn cynnwys pob math o bobl, o bob lliw a llun a chydag amrywiaeth eang o sgiliau a phrofiadau.
- Mae heddweision gwirfoddol yn ddynion a menywod o bob hil a ffydd.
- Rhaid i heddweision gwirfoddol fod yn 18 oed neu'n hŷn.

Beth yw'r manteision i chi?

- Boddhad cefnogi'ch cymuned.
- Y cyfle i ddysgu sgiliau trosglwyddadwy newydd ac ennill profiad gwerthfawr.
- Y cyfle i weithio mewn amgylchedd proffesiynol, gyda chefnogaeth hyfforddiant a gwybodaeth gyfoes.
- Cyfle i herio'ch hun a dangos beth allwch chi ei gyflawni.
- Cyfle i ddysgu am yr heddlu cyn ymrwymo i swydd o fewn y gwasanaeth.

A fydd yn eich newid?

- Fe allwch chi dyfu o ran hunan-hyder ac efallai darganfod cryfderau personol nad oedd heb eu cydnabod o'r blaen.
- Byddwch chi'n gwella'ch sgiliau cyfathrebu.
- Byddwch chi'n dysgu cryn dipyn am eich cymuned.
- Byddwch chi'n datblygu cysylltiadau newydd a chyfeillgarwch cadarn.

Rolau gwasanaeth yr heddlu

- Heddweision.
- Swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu (PCSOs) – aelodau o'r heddlu, sy'n canolbwyntio ar drosedd lefel is, anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn cymunedau (dim pŵer i arestio).
- Gwirfoddolwyr cymorth yr heddlu - gwirfoddolwyr sy'n cyflawni amrywiaeth o rolau cymorth lle nad oes angen ardystiad yr heddlu, ac sy'n atodol i waith staff amser llawn.

Beth maen nhw'n ei wneud?

O ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol i reoli torfeydd mewn digwyddiadau pwysig, mae gwaith heddwas gwirfoddol yn amrywiol, yn heriol ac, yn anad dim, yn fuddiol.

Mae heddweision gwirfoddol yn cymryd rhan yng ngwaith rheng flaen yr heddlu. Maen nhw'n treulio'r rhan fwyaf o'u hamser ar y strydoedd, yn cynnal patrolau ar sail cudd-wybodaeth mewn mannau pwysig o ran trosedd neu'n cymryd rhan mewn mentrau atal trosedd. Gallai hyn olygu unrhyw beth o gadw canol trefi'n ddiogel gyda'r nos drwodd i gynnal ymholiadau o dŷ i dŷ neu helpu i atal aelodau diamddiffyn o'r gymuned rhag dod yn fictimau trosedd. Mae'n waith caled, ymestynnol, ond o'ch diwrnod cyntaf ar ddyletswydd, byddwch chi'n gweld yr effaith rydych yn ei chael. Hefyd mae'n hynod amrywiol, ac fe allech chi'n rhwydd eich cael eich hun yn gwneud unrhyw un o'r canlynol:

Sicrhau diogelwch y cyhoedd

- Cynorthwyo ym man damwain, tân neu ddigwyddiad – gan helpu i reoli'r sefyllfa, a sicrhau bod pobl yn ddiogel.
- Darparu diogelwch a rheolaeth tyrfa mewn digwyddiadau cyhoeddus mawr – gan atal anafiadau ac anhrefn.

Atal troseddu

- Cynnal patrolau traed gweledegd uchel i atal a chanfod troseddwyr.
- Addysgu busnesau a phobl hŷn am drosedd a sut i'w hosgoi i leihau troseddu opportiwnistig ac ofn pobl y bydd yn digwydd.
- Siarad â phlant ysgol am leihau trosedd a diogelwch cymunedol i'w helpu i aros yn ddiogel a gwneud y dewisiadau cywir.

Ymdrin â throsedd

- Herio ymddygiad gwrthgymdeithasol ar y strydoedd fel gangiau neu ymddygiad bygythiol.
- Rheoli sefyllfaoedd sy'n gysylltiedig ag alcohol fel meddwdod cyhoeddus neu drais.
- Gorfodi mentrau diogelwch y ffordd fel cyflymdra traffig mewn cymunedau lleol.

Ymchwilio i drosedd

- Cynnal ymholiadau o dŷ i dŷ i gasglu gwybodaeth a chefnogi ymholiadau ehangach.

Sicrhau collfarnau

- Cyflwno tystiolaeth yn y llys i gefnogi'r system cyfiawnder wrth erlyn troseddwyr.

Datblygu fel heddwas gwirfoddol

Ar ôl i chi gael eich hyfforddi a phan fydd gennych brofiad ymarferol byddwch yn gallu ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb fel heddwas gwirfoddol. Mae hyfforddiant ar gael yn gyson ac mae gan rai heddluoedd raddau o fewn yr Heddlu Gwirfoddol fel y gall gwirfoddolwyr gael eu dyrchafu wrth i'w profiad a'u sgiliau ddatblygu. Mae hyn yn golygu y byddwch bob amser yn wynebu heriau newydd a'r cyfle i ennill sgiliau newydd.

Mae gan **heddweision gwirfoddol** yr un cyfrifoldebau a phwerau â heddweision rheolaidd. Maen nhw'n dilyn yr un rheolau ymddygiad â heddweision rh eolaidd ac mae ganddyn nhw'r un gweithdrefnau disgyblu. Yn debyg i heddweision rheolaidd, mae ganddyn nhw'r un pwer i arestio hefyd.

FY STORI I

Rwy'n fam sengl sy'n gweithio. Fel heddwas gwirfoddol rwy'n gweithio ochr yn ochr â heddweision rheolaidd gan berfformio dyletswyddau sy'n cynnwys cyrchoedd cyffuriau a chyhoeddi warantau. Rwy'n mwynhau sifftiau nos Wener neu nos Sadwrn lle bo'n bosib, ac rwy'n hoffi plismona gemau pêl-droed hefyd.

Ailsa Pate
Heddwas Gwirfoddol, Swydd Gaerhirfryn

Pam dod yn heddwas gwirfoddol?

Os ydych chi'n chwilio am her, dewch yn heddwas gwirfoddol a dysgwch beth allwch chi ei gyflawni – dros eich hun a thros eich cymuned.

Gall dod yn heddwas gwirfoddol roi sgiliau newydd i chi sy'n ddefnyddiol i'ch gyrfa a'ch bywyd

Fel heddwas gwirfoddol gallwch chi wneud cyfraniad uniongyrchol at eich cymuned leol. Byddwch chi'n helpu i atal trosedd a chreu cysylltiadau cryfach rhwng yr heddlu a'r bobl maen nhw'n eu gwasanaethu. Os nad ydych chi am ddod yn heddwas gwirfoddol ond yn dal i ddymuno cefnogi'ch gwasanaeth heddlu gallech chi ddod yn wirfoddolwr cymorth yr heddlu, gan ddarparu gwasanaeth wrth gefn sy'n gadael i heddweision rheolaidd fynd ati gyda'u prif ddyletswyddau.

Dysgwch beth allwch chi ei gyflawni

Y gwir amdani yw y gall pob un ohonom ni wneud llawer mwy nag a wyddom ac mae dod yn heddwas gwirfoddol yn un o'r ffyrdd gorau o ddysgu sgiliau trosglwyddadwy newydd a datblygu'r potensial sydd heb ei feithrin. Bydwch yn wynebu heriau cyffrous, yn ennill sgiliau gwerthfawr a fydd o gymorth yn eich datblygiad personol a'ch gyrfa, a gallwch ymfalchïo yn eich cyflawniadau a hybu'ch hunan-barch a'ch hyder.

Mynnwch weld byd gwahanol

Allan ar batrol, byddwch yn delio â sefyllfaoedd a phobl na fyddwch chi byth yn cwrdd â nhw yn eich bywyd bob dydd. Yn anad dim, byddwch yn cael gweld gwir effaith trosedd ar fywydau pobl a'r pwer eithriadol sydd gennych chi fel unigolyn i wneud gwahaniaeth go iawn. Mae bod yn heddwas gwirfoddol yn agoriad llygaid o'r radd flaenaf. Yn llythrennol mae'n benderfyniad sy'n newid bywyd. Beth bynnag eich cynlluniau, bydd gweithio fel aelod o deulu ehangach gwasanaeth yr heddlu, ochr yn ochr â swyddogion rheolaidd o bob gradd a gwirfoddolwyr eraill, yn brofiad cyffrous a gwerthfawr i chi.

Gwnewch y strydoedd yn fwy diogel

Mae heddweision gwirfoddol yn llygad eu lle i ymfalchïo yn eu gwaith anhygoel. Mae mynd allan ar y strydoedd i ddelio â throseddu yn helpu i wella diogelwch y cyhoedd a chynnal ysbryd cymunedol. Mae'n gwneud cymdogaethau'n fannau gwell i fyw, mae'n helpu pobl ifanc i wneud dewisiadau positif yn eu bywydau ac yn helpu'r heddlu gwirfoddol i ddod yn aelodau mwy hyderus ac uwch eu parch o'u cymunedau. Oes gennych chi ddiddordeb? Yna darllenwch ymlaen i ddysgu pa fath o bobl rydym ni'n chwilio amdanyn nhw.

FY STORI I

Fel heddwas gwirfoddol mae gennych chi ddyletswyddau a chyfrifoldebau i'w cyflawni. Rwy'n arbenigwr jiwdo sy'n eitha adnabyddus yn lleol ac un diwrnod, er fy nad oeddwn i ar ddyletswydd ar y pryd, gofynnwyd i mi helpu i ddiarfogi darpar ymosodwr a welwyd yn chwifio cyllell yng nghanol tref Scarborough. Roeddwn i'n gallu mynd tuag ato fe gyda hyder ac awdurdod, sicrhau'r arf a wneud yn siŵr na ddioddefodd y cyhoedd unrhyw niwed.

Rafl Aghanian,
Heddwas Gwirfoddol, Gogledd Swydd Efrog

Ymateb lleol

Mae'r Heddlu Gwirfoddol yn bont ardderchog rhwng gwasanaeth yr heddlu a'r cyhoedd, gan gynrychioli'r gymuned o fewn gwasanaeth yr heddlu a gwasanaeth yr heddlu o fewn y gymuned.

Mae llwyddiant plismona yn y gymdogaeth ar hyd a lled y wlad wedi digwydd i raddau helaeth oherwydd cyfraniad pwysig heddlu gwirfoddol, sy'n cynnig dolen gyswllt rhwng heddweision rheolaidd a'r cymuned. Mae heddweision gwirfoddol yn byw o fewn y cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethau ac mewn sefyllfa dda i ymchwilio a datrys troseddau lleol a chael atebion i broblemau lleol. Mae hyblygrwydd yr heddlu gwirfoddol, sy'n gallu gweithio gyda'r hwyr neu ar y penwythnos yn aml, yn rhoi i heddluoedd yr adnoddau ychwanegol mae arnyn nhw eu hangen i ddelio â'r materion sydd o bwys mawr i bobl leol fel goryrru, graffiti, tresmasu ac yfed yn rhy ifanc.

Y sgiliau mae arnoch eu hangen

Mae gan yr Heddlu Gwirfoddol dalentau llu, ond bydd agwedd bositif a hyfforddiant trylwyr yn fan cychwyn gwych. Mae cefnogaeth a hyfforddiant yn gyson wrth i chi ddatblygu.

Mae'r Heddlu Gwirfoddol yn croesawu ceisiadau gan bobl o bobl lliw a llun a chefndir. Un o'r gofynion pwysicaf i bob heddwas gwirfoddol yw ymrwymiad i wneud gwahaniaeth positif yn eu hardal leol.

Ydy hyn yn swnio fel chi?

Er bod rhywfaint o waith papur ynghlwm wrth waith yr heddlu, peidiwch cael eich rhwystro gan ddiffyg cymwysterau ffurfiol. Mae gan y math o bobl rydym ni'n chwilio amdanynt sgiliau bywyd da a phrofiad ynghyd ag ymwybyddiaeth gryf o'u cymuned. Mae angen iddynt allu:

- aros yn dawel mewn argyfwng
- cyfathrebu'n glir
- datrys anghyfodau yn ddoeth
- meddwl yn ddargyfeiriol a datrys problemau
- cynllunio a bod yn flaengar
- bod yn oddefgar a gweithio'n dda mewn tîm
- bod yn onest, yn deg ac yn ddiduedd
- gweithredu gydag integredd
- trin y cyhoedd a'u cydweithwyr gyda pharch a chwrteisi.

Hyfforddiant i ddatblygu'ch sgiliau

Cyn dod yn heddwas gwirfoddol mae pob recriwt yn derbyn hyfforddiant llawn mewn meysydd sy'n cynnwys:

- beth mae gwasanaeth yr heddlu yn ei wneud
- rôl, pwerau a dyletswyddau heddweision
- atal, canfod ac ymdrin â throseddau cyffredin
- paratoi tystiolaeth am y llys
- datrys anghydfodau ac ymdrin â sefyllfaoedd anodd
- hunan-amddiffyn.

Gall yr hyfforddiant rydych chi'n ei gael fel heddwas gwirfoddol fod yn werthfawr ac yn ddefnyddiol yn eich gyrfa ac yn eich bywyd personol. Fel heddwas gwirfoddol newydd byddwch yn parhau i dderbyn yr holl gymorth a goruchwyliaeth rydych eu hangen i deimlo'n gysurus wrth gyflawni'ch dyletswyddau.

Wrth i chi ddatblygu, gall eich rôl fel heddwas gwirfoddol dyfu gyda chi. Mae hyfforddiant yn barhaus a bydd cyfleoedd i ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb felly rydych yn cael eich herio ac yn dysgu sgiliau newydd yn gyson.

FY STORI I

Rwy'n gweithio i Gyngor Bwrdeistref Rotherham ac rwy'n briod gydag un plentyn. Fel heddwas gwirfoddol newydd, cymryd rhan mewn gweithrediad dillad cyffredin i sefydlu man cyfarfod wythnosol i blant yn eu harddegau oedd un o'm tasgau cyntaf; mae wedi bod yn her. Mae'r prosiect wedi helpu i feithrin perthynas dda â'r plant, sy'n helpu pan fyddwch chi'n cwrdd â nhw ar batrol cyffredinol. Rwy'n meddwl ein bod yn wedi chwalu'r myth bod yr heddlu bob amser yn galed arnyn nhw. Mae'n nhw'n gwybod yn bod ni'n hawdd dod atom a dim ond yn bobl arferol.

James Keeley,
Heddwas gwirfoddol, De Swydd Efrog

Sut bydd yn newid fy mywyd?

Gyda llawer o gyfleoedd am ddyrchafiad a hyfforddiant pellach, ynghyd â'r budd i'ch CV, gall dod yn heddwas gwirfoddol nid yn unig hybu'ch gyrfa – gall newid eich bywyd.

Mae dod yn heddwas gwirfoddol a helpu i gadw'ch cymuned yn ddiogel yn un o'r penderfyniadau mwyaf gwerthfawr allwch chi ei wneud. Yn ogystal â'r sgiliau rydych chi'n eu dysgu a'r profiadau newydd a gewch chi, bydd yn cael effaith ar feysydd eraill o'ch bywyd.

Offer, hyfforddiant a threuliau

Pan rowch chi'ch amser, fe gewch eich gwisg, offer a hyfforddiant. Hefyd byddwch yn gallu hawlio'ch treuliau i dalu'ch costau, ac mae rhai heddluoedd yn cynnig lwfansau ychwanegol am ymrwymiadau penodol, ond mae hyn yn amrywio yn ôl ardal.

Cyfleoedd datblygu

Mae gan rai heddluoedd strwythur graddau yn eu Heddlu Gwirfoddol, felly gyda'r profiad a'r hyfforddiant cywir fe allwch gael eich dyrchafu ac ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb. Hefyd mae'n bosib y bydd gennych y cyfle i hyfforddi i ymuno â thimau arbenigol – fel cymorth morwrol, unedau cŵn a phlismona'r ffyrdd.

FY STORI I

Gŵr a gwraig, Chas a Lorraine Maiden (y prif lun gyda'u mab ac mewn lifrau fel heddweision gwirfoddol yn y llun ar y dde).

Mae'r ddau ohonon ni'n heddweision gwirfoddol. Ymunodd Chas yn gyntaf ond nid dim ond ei ddilyn e a wnes i. Rydym ni'n mynd ar batrol gyda'n gilydd yn aml, tra bod ein mab yn aros gyda'i Famgu. Rwy'n croesawu'r cyfle i gael amser allan o'r tŷ lle dwi'n gweithio fel gwarchodwr plant cofrestredig.

Plismona a Gefnogir gan Gyflogwyr

Mae sefydliadau mewn partneriaeth â'r heddlu gwirfoddol yn creu proffil rhagorol i'w hun yn y gymuned, ac yn manteisio ar fuddion diriaethol eraill sy'n eu gwneud yn gryfach. Mae heddweision gwirfoddol yn ymrwymo oriau gofynnol o'u hamser bob wythnos (fel arfer pedair) i waith rheng flaen hanfodol yr heddlu. Gan fod y mwyafrif yn gweithio amser llawn hefyd, maent yn dibynnu ar anogaeth a chefnogaeth eu cyflogwyr.

Cefnogaeth gan gyflogwyr

Mae pobl yn gofyn yn aml a allai ymrwymiad allanol fel bod yn heddwas gwirfoddol ofidio eu cyflogwyr. Ein profiad ni yw bod cyflogwyr fel arfer yn hapus iawn i'w staff ddod yn heddweision gwirfoddol a bod llawer yn mynd ati i'w cefnogi drwy roi amser i ffwrdd am dâl i staff tra byddant ar ddyletswydd. Mae rhai sefydliadau yn annog eu staff i ddod yn heddweision gwirfoddol ac yn gweithio mewn partneriaeth â'r Heddlu Gwirfoddol. Mae hyd yn oed cyflogwyr nad ydynt yn rhoi amser i ffwrdd yn dal i barchu'r gwaith mae'r heddlu gwirfoddol yn ei wneud.

Mae'r rheswm yn syml. Mae'r sgiliau rydych chi'n eu dysgu, fel cyfathrebu, gweithio dan bwysau, arweinyddiaeth a rheoli anghydfodau, yn hynod werthfawr i fusnesau ac yn gallu'ch gwneud chi'n weithiwr llawer mwy atyniadol. Gofynnwch i gyflogwr ddisgrifio'r math o bobl maent eisiau eu hurio a byddant yn dweud pobl ymroddedig, gyfrifol, ymrwymedig – yr union fath o bobl sy'n dod yn heddweision gwirfoddol. Yn syml, mae dod yn heddwas gwirfoddol yn edrych yn grêt ar eich CV!

Os ydych chi'n ystyried dod yn heddwas gwirfoddol ac yn pryderu beth fydd eich pennaeth yn ei feddwl, ewch i **www.npia.police.uk/specials** a chwiliwch o dan 'Specials employer support' am gymorth a chyngor.

Manteision i gyflogwyr

Fel a nodwyd uchod, mae'r sgiliau rydych chi'n eu dysgu a'u datblygu fel heddwas gwirfoddol yn uniongyrchol drosglwyddadwy i'ch swydd amser llawn ac yn fantais bositif i'ch cwmni heb unrhyw gost i'ch cyflogwr. Mae manteision ehangach hefyd.

- Mae cefnogi'r gymuned leol yn creu cysylltiadau cyhoeddus positif.
- Datblygiad staff heb fawr neu ddim gost – mae ymchwil yn datgelu y byddai'n rhaid i gwmnïau dalu £7,800 y gweithiwr i ddarparu hyfforddiant tebyg.
- Cyfleoedd hyrwyddo positif i'r cwmni – sylw golygyddol am ddim mewn papurau newydd lleol.
- Gwell morâl a chymhelliant staff – mae gweithiwr sy'n cyflawni yn weithiwr hapus.
- Cadw staff yn well a chostau recriwtio is – mae gweithwyr yn fwy tebyg o fod yn deyrngar.
- Mynd i'r afael â throsedd ac anhrefn lleol.

Yn ogystal, mae heddweision gwirfoddol yn cynnig presenoldeb gweladwy'r heddlu yn ardal sefydliad. Gall heddlu gwirfoddol helpu i leihau cyfraddau troseddu a lleihau ofn trosedd ymhlith cleintiaid a staff eu cyflogwr.

Sut all fy sefydliad i gymryd rhan?

Bydd cydlynydd eich heddlu lleol yn hapus i drafod y trefniant gorau i'ch sefydliad chi, a gall siarad yn uniongyrchol â'ch cyflogwr am fanteision cael gwirfoddolwr fel heddwas gwirfoddol ar eu staff.

Os bydd eich cyflogwr yn awyddus i gymryd rhan gall gefnogi aelodau o staff sy'n dymuno ymrestru drwy gytuno ar nifer benodedig o oriau am dâl neu heb dâl y mis iddynt gael cyflawni eu dyletswyddau. Hefyd gall eich cyflogwr gydnabod cyraeddiadau gwirfoddolwyr a hyfforddiant staff trwy weithdrefnau arfarnu neu gynllun gwobrwyo.

FY STORI I

Roeddwn i am roi rhywbeth yn ôl i'r gymuned lle ces i fy magu a bod yn heddwas gwirfoddol oedd y ffordd fwyaf effeithiol ac uniongyrchol roeddwn i'n gallu meddwl amdani. Fel bod yn ynad neu'n gynghorydd tref, mae bod yn heddwas gwirfoddol yn cael ei raddio gan fy nghwmni fel gweithgaredd sifig, felly rwy'n cael nifer penodedig o ddyddiau i ffwrdd am dâl bob blwyddyn i wneud y gwaith yma.

Dave Hutchinson
Swydd Gaer

Pa fath o gynllun sydd ar gael?

Mae'r rhaglen Plismona a Gefnogir gan Gyflogwyr (ESP) wedi bod ar waith yn llwyddiannus mewn nifer o heddluoedd ledled y wlad. Gall staff o fewn sefydliad sy'n cymryd rhan wirfoddoli i fod yn Heddweision Gwirfoddol a Gefnogir gan Gyflogwyr. Yna mae cyflogwyr yn caniatáu i'r staff hyn gael amser i ffwrdd yn ystod oriau gweithio arferol i wneud hyfforddiant yr Heddlu Gwirfoddol ac yna, wedi eu hyfforddi'n llawn, maent yn rhoi amser a gytunir i ffwrdd iddynt o fewn cyfnod penodedig rheolaidd i ymgymryd â'u dyletswyddau fel heddwas gwirfoddol. Mae'r prif gynllun ESP yn addas i gyflogwyr a'u staff ar draws amrediad eang o sectorau diwydiant. Yn ogystal, mae gan y rhaglen gynlluniau penodol hefyd sydd wedi deillio o bartneriaethau â sectorau cyflogaeth gwahanol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **ShopWatch** – sy'n uno manwerthwyr a'r heddlu yn y frwydr yn erbyn trosedd mewn siopau a mannau siopa.
- **ArtBeat** – yn annog arbenigwyr sy'n gweithio ym maes celf a hynafolion i gydweithio â ditectifau o Uned Arbenigol Celf a Hynafolion yr Heddlu Metropolitanaidd i helpu i atal a chanfod trosedd yn y diwydiant hwn.
- **BoroughBeat** – gan weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol (yn Llundain i ddechrau), mae staff awdurdod lleol yn cael eu hannog i wirfoddoli'n heddweision gwirfoddol.
- **BusBeat** – gweithio gyda chwmnïau bysiau i ddarparu hyforddiant yr heddlu i staff. Mae hyn yn arwain at ymdeimlad cryfach o ddiogelwch i gydweithwyr a chwsmeriaid.
- **CampusWatch** – a anelir at staff a myfyrwyr prifysgolion i helpu i wneud campws y brifysgol yn lle mwy diogel.
- **HospitalWatch** – Mae'r cynllun hwn yn annog ysbytai i weithio mewn partneriaeth â'r heddlu i helpu i wella diogelwch a chynnig mwy o sicrwydd i'r staff sy'n gweithio yno a'r aelodau o'r cyhoedd sy'n eu defnyddio.

Ar hyn o bryd mae cannoedd o staff British Telecom sy'n gweithio'n heddweision gwirfoddol, ac mae BT yn dangos ei ymrwymiad i'r Heddlu Gwirfoddol drwy roi i'n gweithwyr sy'n heddweision gwirfoddol ddyddiau ychwanegol o wyliau i'w treulio ar eu dyletswyddau gwirfoddol.

Robert Leach
BT

STORI CYFLOGWR

I ddysgu mwy
I ddysgu mwy am y math o bartneriaeth y gallai'ch sefydliad chi ei mwynhau â'r Heddlu Gwirfoddol, cysylltwch â Jamie Horton: **jamie.horton@npia.pnn.police.uk**

Gaf i ymuno â'r heddlu gwirfoddol?

Mae'r Heddlu Gwirfoddol yn recriwtio pobl o bob oedran a chefndir, ond mae ychydig o feini prawf sylfaenol y bydd angen i chi eu bodloni os ydych am ddod yn heddwas gwirfoddol.

Rhaid i'r sawl sy'n dymuno dod yn heddwas gwirfoddol fodloni'r meini prawf sylfaenol canlynol:

Cenedligrwydd

Rhaid i chi fod o wlad yn Ardal Economaidd Ewrop neu fod â chaniatâd i ddod i mewn ac aros yn y Deyrnas Unedig yn rhydd rhag cyfyngiadau.

Addysg

Nid oes angen unrhyw gymwysterau ffurfiol arnoch chi. Fodd bynnag, bydd rhaid i chi lwyddo mewn profion ysgrifenedig.

Amser

Rhaid i chi fod ar gael i wirfoddoli am bedair awr neu fwy yr wythnos, fel arfer mewn un sifft (mae'r Gwasanaeth Heddlu Metropolitanaidd yn gofyn am wyth awr yr wythnos i ddechrau).

Oedran

Rhaid i chi fod o leiaf 18 oed i wneud cais. Nid oes unrhyw derfyn uchaf i ddod yn heddwas gwirfoddol.

Taldra

Nid oes unrhyw ofyniad taldra gofynnol.

Iechyd a ffitrwydd

Mae'n rhaid i chi fod mewn iechyd da. Mae rhai heddluoedd yn defnyddio prawf ffitrwydd.

Galwedigaeth

Nid oes rhaid i chi fod yn gweithio i ddod yn heddwas gwirfoddol. Rydym yn croesawu ceisiadau gan bobl ddi-waith a chan y rhai sydd gartref yn magu teulu. Fodd bynnag, bernir bod swyddi rhai pobl yn wrthdrawiad buddiannau. Nid yw aelodau'r lluoedd arfog, er enghraifft, yn cael gwasanaethu fel heddweision gwirfoddol.

Am fanylion swyddi eraill dan sylw, ewch i wefan yr heddlu gwirfoddol yn **www.npia.police.uk/specials**.

Cymeriad a chollfarnau blaenorol

Rhaid i chi fod o gymeriad da a pheidio ag ymwneud ag unrhyw droseddwyr hysbys. Os oes gennych fân gollfarnau neu rybuddion blaenorol, gallai hyn eich datgymhwyso rhag dod yn heddwas gwirfoddol; bydd yn dibynnu ar y math o drosedd. Os ydych yn aelod o grŵp amhriodol (er enghraifft y British National Party), gallai hyn eich datgymhwyso rhag dod yn heddwas gwirfoddol.

FY STORI I

Gyda'r noswaith a'r penwythnosau mae fy sifftiau i fel arfer – y cyfnodau prysuraf am bobl stwrllyd yn y strydoedd mawr. Yn ystod y dydd byddaf efallai'n helpu i gynnal gwiriadau ffordd a rhoi tocynnau am oryrru. Rwy'n ymwneud yn aml â gwyliau leol ac rwy'n tueddu i weithio cryn dipyn gyda phobl ifanc, gan weithredu ar grwpiau sy'n niwsans neu'n atafaelu alcohol.

Missy Tsim,
Heddwas Gwirfoddol, Caint

Beth nesaf?

Nawr rydych chi wedi clywed y cwbl am rôl heddwas gwirfoddol, felly p'un a oes gennych chi fwy o gwestiynau neu'n barod i wneud cais, mae'n bryd cymryd y cam nesaf.

Yn barod i ddod yn heddwas gwirfoddol?

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn dod yn heddwas gwirfoddol mae tri cham i'w cymryd.

1. Os nad ydych chi wedi gwneud yn barod, cysylltwch â'r heddlu rydych chi am wneud cais iddo. Bydd angen i chi wneud yn siŵr eu bod yn recriwtio ar hyn o bryd am yr Heddlu Gwirfoddol.

2. Llenwi'r ffurflen gais a'i chyflwyno i'r heddlu rydych chi'n gwneud cais iddo.

3. Mynd trwy weithdrefn recriwtio'r heddlu unigol.

Oes gennych chi gwestiwn?

1. Os yw'ch cwestiwn yn ymwneud â chymhwyster a thelerau ac amodau bod yn heddwas gwirfoddol yna cysylltwch â'r Asiantaeth Genedlaethol Gwella Plismona (NPIA) yn **specialsteam@npia.pnn.police.uk.**

2. Os yw'ch cwestiwn yn ymwneud â recriwtio neu'r broses ymgeisio, cysylltwch â'r heddlu rydych chi'n gwneud cais iddo.

Synnwch eich hun heddiw gyda'r hyn gallwch chi ei gyflawni

National Policing Improvement Agency
Fry Building
2 Marsham Street
London
SW1P 4DF

Ffôn: 0203 113 6000

www.npia.police.uk

PD06800611